

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd dros gynhadledd fideo ddydd Mercher, 8 Rhagfyr 2021 am 9.30am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Irving (Cadeirydd), Brian Jones (Is-gadeirydd), Barry Mellor, Melvyn Mile, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Peter Scott a Rhys Thomas

Arsylwyr: Cynghorwyr Meirick Davies a Gwyneth Ellis

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr – Arweinydd Tîm – Lleoedd (TD), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Trwyddedu (ES), Swyddogion Gorfodi (Trwyddedu) (KB a NS), Swyddog Cyfreithiol (SR) a Chyfreithiwr Dan Hyfforddiant (JH) Swyddogion y Pwyllgor (KEJ a SJ [i we-ddarlledu])

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Joan Butterfield

2 DATGANIADAU CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Brian Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 6 ar y rhaglen, oherwydd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

Datganodd y Cynghorydd Barry Mellor gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 6 ar y rhaglen, oherwydd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater bryn.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â diweddariad am eitemau oedd wedi'u haildrefnu a'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiwygiedig ar gyfer 2022.

Roedd blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddwyd ar yr awdurdod mewn cysylltiad â'i gyfrifoldebau ar gyfer swyddogaeth a rheoliadau, rheolaeth, a gorfodaeth effeithiol o drwyddedai ynghyd ag ymrwymiad yr awdurdod i gymunedau mwy diogel a datblygiad yr economi. Yn anffodus oherwydd blaenoriaethau nad oedd modd eu rhagweld, mae'r rhaglen waith i'r dyfodol a gymeradwywyd wedi cael ei diwygio gydag eitemau wedi'u haildrefnu a chyflwynwyd rhaglen waith ddiwygiedig i'w hystyried.

Rhoddodd Swyddogion ddiweddariad am yr eitemau a fydd yn cael eu dwyn ymlaen i gyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr a gafodd eu trafod gydag aelodau, sef -

- **Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat**

Roedd y ddogfen ymgynghori ar Ddatganiad Polisi Trwyddedu arfaethedig ar gyfer busnesau tacsis yn agos at ei chwblhau ac roedd swyddogion yn gweithio gyda Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Cyngor i gyhoeddi'r ymgynghoriad drwy borth Sgwrs y Sir.

- **Adolygu Datganiad o Egwyddorion - Deddf Gamblo 2005**

Roedd adolygiad o Ddatganiad o Egwyddorion Deddf Gamblo 2005 yn cael ei gynnal ar draws chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru ac ar ôl ei gwblhau, bydd swyddogion yn cyflwyno cynigion i'r Pwyllgor Trwyddedu.

- **Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd**

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu eisoes wedi ystyried a chymeradwyo polisi drafft ar gyfer ymgynghoriad a sefydlu Is-grŵp (gan gynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd ynghyd â chynrychiolydd o'r Grŵp Ardal Aelodau) i ystyried y polisi ymhellach. Roedd paratodau yn parhau gyda Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Cyngor gyda'r bwriad o gyhoeddi'r ymgynghoriad drwy borth Sgwrs y Sir ar yr adeg briodol. Gan ymateb i gwestiynau, fe soniodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd am gyfarfod yr Is-grŵp ar 24 Tachwedd 2021 ynglŷn â'r gwaith pellach oedd ei angen i geisio barn Cynghorau Dinas/Tref/Cymuned a Grwpiau Aelodau Ardal ynglŷn â manylion pob ardal unigol er mwyn teilwra'r polisi fel y bo'n briodol, gan ystyried y byddent mewn sefyllfa well i gynghori ar eu hardaloedd penodol. Roedd y materion i gael eu hystyried yn ymwneud yn bennaf ynglŷn â lle y dylai masnachu ar y stryd gael ei gynnal, os o gwbl. Roedd templed wrthi'n cael ei baratoi i'w ddsbarthu.

- **Datganiad o Bolisi Trwyddedu – Deddf Trwyddedu 2003**

Yn eu cyfarfod diwethaf, fe awdurdododd y Pwyllgor Trwyddedu swyddogion i ymgynghori ar Ddatganiad o Bolisi diwygiedig. Fodd bynnag, roedd hi wedi dod i'r amlwg ers hynny nad oedd fersiwn bresennol y polisi yn cyrraedd gofynion hygyrchedd a byddai angen ei addasu'n sylweddol. O ganlyniad, roedd swyddogion eisiau defnyddio'r templed a luniwyd gan awdurdodau Gogledd Cymru gan nad

oedd yna wahaniaethau mawr o ran y cynnwys, dim ond mewn ymddangosiad a fformat. Byddai swyddogion yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod mewn Pwyllgor yn y dyfodol ar ôl yr ymgynghoriad.

- **Adolygu Ffioedd a Thaliadau**

Cafodd y ffioedd a thaliadau ar gyfer gweinyddu trwydded tacsu eu hadolygu ddiwethaf yn 2018 ac er y dylid eu hadolygu'n rheolaidd, bu'n rhaid gohirio'r gwaith hwnnw oherwydd pandemig Covid-19. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i weithredu system ymgeisio ar-lein a fyddai'n gwneud newid mawr i'r broses ymgeisio. Yn ogystal roedd swyddogion wedi derbyn ceisiadau i adolygu taliadau tariff cerbydau hacni a gafodd eu diweddarau ddiwethaf yn 2018. O ganlyniad, cynigiodd swyddogion i fwrw ymlaen â'r ddau adolygiad ar y cyd ac ymgynghori gyda thrwyddedai presennol gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2022.

Nododd yr Aelodau y diweddariad a chymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol. O ystyried faint o fusnes oedd angen ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a'r gwaith y byddai hynny'n ei olygu, cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwerth cynnal rhag-gyfarfod cyn y cyfarfod er mwyn i aelodau fod yn gyfarwydd â'r eitemau ar yr adroddiad cyn eu hystyried yn ffurfiol. Ar ôl trafodaeth fer, cytunwyd y byddai'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a Busnes yn trafod gyda'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn nes at yr amser ynglŷn â fyddai rhag-gyfarfod gydag aelodau yn fanteisiol. Roedd y Cynghorydd Brian Jones yn awyddus iawn bod unrhyw waith oedd yn weddill yn cael ei gwblhau yn ystod tymor y Cyngor presennol lle bo hynny'n bosibl.

PENDERFYNWYD –

- (a) *nodu cynnwys yr adroddiad, a*
- (b) *cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol diwygiedig ar gyfer 2022 fel y manylir yn atodiad yr adroddiad i'w gymeradwyo.*

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 554278

[Ar ôl datgan cysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu, gadawodd y Cynghorydd Brian Jones y cyfarfod tra oedd yn eitem honno'n cael ei thrafod.]

Roedd adroddiad cyfrinachol eisoes wedi'i gyflwyno gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan

Ymgeisydd Rhif 554278. Nid oedd yr ymgeisydd na'i gynrychiolydd enwebedig yn bresennol.

Dywedodd swyddogion bod yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd enwebedig wedi gofyn am ohirio'r achos gan nad oedd yr ymgeisydd wedi gallu mynychu'r cyfarfod i gefnogi ei gais oherwydd ymrwymadau gwaith oedd yn gwrthdaro.

Dywedodd y Cyngorwr Cyfreithiol beth oedd opsiynau'r Pwyllgor i naill ai cytuno i'r cais a gohirio'r mater tan rhywbryd eto, neu fwrw ymlaen a phenderfynu ar y cais yn absenoldeb yr ymgeisydd. Gofynnwyd i'r Pwyllgor fod yn ystyriol o roi cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno'i achos er mwyn sicrhau proses a phenderfyniad teg, ac ystyried petai hyn yn cael ei benderfynu yn ei absenoldeb, ac os na fyddai'r canlyniad yn mynd o blaid yr ymgeisydd, roedd yna berygl o gostau gyda honiad posibl bod yr awdurdod trwyddedu wedi bod yn afresymol dan yr amgylchiadau. O ganlyniad, y cyngor cyfreithiol cryf oedd y dylai aelodau ystyried gohirio'r achos.

Ystyriodd y Pwyllgor y cais i ohirio ynghyd â'r cyngor cyfreithiol a roddwyd. Penderfynodd y Pwyllgor i ohirio'r achos ac yna fe wnaethant ystyried a ddylid galw cyfarfod arbennig i benderfynu ar y cais. Ar ôl trafodaeth fer, cytunwyd y dylid gohirio dod i benderfyniad ar y cais tan bwyllgor nesaf y cyfarfod oedd wedi cael ei drefnu ar 2 Mawrth 2022.

Penderfynwyd bod y gwaith o ystyried y cais ar gyfer trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 554278 yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu sydd wedi'i drefnu ar gyfer ar 2 Mawrth 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00am.